

Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd yn Neuadd Goffa Sarnau/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, July 4th at Sarnau Memorial Hall.*

Yn Bresennol/Present

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens (Cadeirydd/*Chair*), Caerwyn Owen, Gareth Evans, Teifi Davies, Gwyn James, Jonathan Rees, William Anwyl, Walwyn Jones.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Huw Davies, Melva Phillips, Barri Davies.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim byd i'w gofnodi/*Nothing to be minuted.*

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 6/6/23.

Cynigiwyd gan Teifi eu bod yn gywir ac eiliwyd hynny gan Caerwyn.

Proposed by Teifi to be correct and seconded by Caerwyn.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.7 Gwefan y Cyngor/Council Website

Nodwyd bod y Clerc wedi bod yn trafod y camau nesaf gyda Graham Jones, Caerwedros a bod Graham ei hun wedi argymhell ei fod yntau yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod gyda'r Cyngor Llawn. Cynigiwyd hynny gan Gwyn a'i eilio gan Walwyn.

It was noted that the Clerk had been discussing the issue with Graham Jones, Caerwedros, and that he himself had suggested that he attend the next full Council meeting, in order to discuss with all members. Proposed by Gwyn and seconded by Walwyn.

5.1 Cyfrif Banc/Bank Account

Nodwyd bod y Cyngor yn dal i aros am gadarnhad bod y cyfrif newydd wedi'i gymeradwyo gan **Bank of Scotland**. Gyda'r aelodau'n ymwybodol bod 6 wythnos wedi bod ers cyflwyno'r cais i'r banc, y farn gyffredinol oedd y dylwn gysylltu â'r banc er mwyn gwneud ymholiadau pellach. Cynigiwyd hyn gan Teifi gyda Gareth yn eilio.

*It was stated that no confirmation had been received regarding the acceptance of our application for a new bank account. With the members aware that 6 weeks had passed since our application, a motion to contact the **Bank of Scotland** directly was proposed by Teifi and seconded by Gareth.*

5.3 Steve Trick/Bois y Mowo

Codwyd y pwynt nad oedd Steve Trick bellach yn gwneud gwaith torri porfa a chynnal cloddiau, gan godi'r angen am ddod o hyd i rywun arall i gyflawni'r gorchwyl. Diolch i waith William, gwnaed trefniant gyda **Bois y Mowo** i dorri'r borfa ynghyd â thorri'r coed am gost o £200. Ar gyfer y dyfodol, daethpwyd i ddealltwriaeth y byddant yn torri'r borfa am £100 y tro.

*Matter was raised that Steve Trick no longer undertook grass maintenance duties, raising the need for someone else to complete the work. Due to William's enquiries, it was agreed for **Bois y Mowo** to undertake the grass cutting, as well as some tree surgery for cost of £200. In future, any grass cutting will cost £100 a cut.*

5.4 Cais am gyfraniad ariannol – Eglwys Penbryn Church – *Request for financial contribution.*

Yn dilyn trafodaeth gyffredinol, daeth yn amlwg fod angen gwneud rhagor o ymholiadau i'r cais cyn medru gwneud penderfyniad ffurfiol. Ymhlith y cwestiynau lu oedd yr angen am geisio canfod pwy sy'n berchen y maes parcio? Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

It became evident that further enquiries needed to be made before having a full understanding of the formal request. One of the core questions was the need to know exactly who owned the car park? Agreed to make further enquiries.

7.1 Ceredigion – Strategaeth Tai Lleol/Local Housing Strategy

Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd ynghylch y strategaeth tai yn ystod cyfarfod mis Mehefin, nododd y Clerc fod y sylwadau a'r casgliadau a luniwyd ar ran y Cyngor Cymuned bellach wedi'u cyflwyno i'r Arolwg a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir i fynd law yn llaw gyda'r strategaeth.

Following last month's discussion about the Local Housing Strategy, the Clerk informed the members that the main points and recommendations agreed upon, on behalf of the Community Council, had been submitted to the County Council Survey which accompanies the strategy.

8 Biniau Ysbwriel ym mhentref Sarnau/Rubbish Bins in Sarnau Village

Yn dilyn trafodaeth a gafwyd ynghylch y diffyg biniau ysbwriel ym mhentre Sarnau, penderfynwyd gofyn i Bwyllgor Neuadd Sarnau am yr hawl i osod bin ysbwriel y tu allan i'r Neuadd. Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Bwyllgor y Neuadd mewn ymateb i'n cais. Penderfyniad y pwyllgor oedd gwrthod y cais gan nodi pe na bai'r Cyngor yn casglu'r sbwriel yn wythnosol, byddai annibendod o gwmpas y Neuadd.

Following the discussion regarding the lack of rubbish bins in Sarnau, it was decided to ask the Hall Committee for permission to locate a bin outside Sarnau Hall.

Correspondence was received from the committee in response to our request. The decision was to refuse our request, citing the danger of rubbish piling up due to irregular collections by the Council.

5 Cyllid/Finance

Angen Talu'r Canlynol/Following require payment

- a) Archwilio Cymru/Audit Wales 2017/2018 – Taliad Archwilio/ Audit Fee £200.00
- b) Archwilio Cymru/Audit Wales 2018/2019 – Taliad Archwilio/Audit Fee £200.00
- c) Bois y Mowo – Torri Llwybr Sarnau/ Maintaining Sarnau Footpath £200.00
- d) Carol Harries, Clerc – Tâl Gorffennaf 2023/Pay £402.06
- e) Carol Harries, Clerc – Costau/ Costs 1/4/23- 31/7/23 (i'w gadarnhau/ t.b.c)
- f) Carol Harries, Clerc – Lwfans Blynnyddol/Annual Allowances 1/4/23- 3/7/23 £97.33
(Gwres a Goleuni/Heat and Light £33.33, Storfa/Storage £16, Ystafell Swyddfa/Room Office £24, Ffôn a Rhyngrwyd/Telephone and Internet £24)

Cytunwyd yn unfrydol ein bod yn talu'r costau uchod wedi inni sicrhau cyfrif banc. Wrth drafod cyflog y Clerc, Carol Harries, cytunwyd y dylid talu dau fis olaf ei chyflog unwaith y bydd holl eiddo a dogfennau gweinyddiaeth y Cyngor Cymuned wedi'u trosglwyddo'n gyfan gwbl. Cynigiwyd gan Teifi a'i eilio gan Caerwyn.

It was agreed that all above payments be approved as soon as bank account is opened. Regarding Carol Harries' pay, it was agreed to defer the final 2 months until the

complete transfer and return of all Council assets and documentation to Penbryn Community Council. Proposed by Teifi and seconded by Caerwyn.

6 Cynllunio/Planning

Derbyniwyd y cais canlynol/The following application was received.

A230402 Hendre, Rhydlewes SA44 5SR

20x40m all weather horse exercise/riding area for applicant's own private use.

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

7 Gohebiaeth/Correspondence

- a) Llywodraeth Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd wedi'i ddiweddarau.
Welsh Government – Revised Privacy Notice
Nodwyd/Noted
- b) Pecyn Cymorth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 20mya.
20mph Communication and Engagement Toolkit.
Nodwyd/Noted
- c) Is-ddeddfwriaeth y Bil Caffael: Lansio Ymgynghoriad – Rhan 1.
Procurement Bill Secondary Legislation: Consultation Launch – Part 1.
Nodwyd/Noted

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- a) Cododd nifer o aelodau bryderon ynghylch diogelwch defnyddwyr yr A487 o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Penbryn. Soniodd Gareth a Walwyn am ddiffygion goleuadau stryd a diogelwch gyrwyr ar gyffyrdd yng nghyffiniau Gogerddan a Thanygroes. Pryder Teifi oedd diogelwch y ffordd rhwng pentref Tanygroes a chyrion Sarnau, gan ofyn tybed a oes angen rhagor o linellau gwyn dwbwl er mwyn sicrhau gyrru mwy synhwyrol ar hyd y darn hwn o heol. Cytunwyd yn unfrydol i ohebu gyda'r Asiantaeth Prifffyrdd yng Nghonwy gyda'r pwyntiau uchod.
A number of issues were raised regarding the safety of users of the A487 within this community. Gareth and Walwyn referred to the lack of street lighting and safety of junctions in the vicinity of Gogerddan and Tanygroes respectively. Teifi was concerned with the general safety of the road between Tanygroes and Sarnau, raising the possible need for more double white lines in order to improve the situation. It was agreed unanimously to correspond with the Trunk Road Agency at Conwy regarding the above mentioned points.
- b) Gofynnodd William tybed a fyddai modd derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r deffibrilwyr yn ein cymunedau. Cynigiodd Delfryn fod ganddo gysylltiadau yn y maes hwn ac y byddai'n fodlon gwneud ymholiadau pellach i'r mater hwn.
William enquired regarding training provision for the use of defibrillators in our community. Delfryn informed the members of his previous experience in this field, and agreed to make further enquiries into this matter.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf nos Fawrth, Medi 5ed am 7.30 y.h.

The next Meeting will be held on Tuesday, September 5th at 7.30 p.m.